| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | 18 Tachwedd 2020 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Barry Mellor, Cadeirydd Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio / Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd |
| **Awdur yr Adroddiad** | Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd |
| **Teitl** | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag adroddiad blynyddol y Pwyllgor i'r Cyngor.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Ceisio cymeradwyaeth Aelodau i adroddiad drafft i'w gyflwyno i'r Cyngor mewn perthynas â gwaith y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2019/2020

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad drafft ynghlwm fel Atodiad 1 ac yn cymeradwyo ei gyflwyno i'r Cyngor yn amodol ar unrhyw newidiadau a awgrymwyd ac a gytunwyd gan Aelodau.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Mae'r Cyfansoddiad yn ei gwneud yn ofynnol bod y Pwyllgor yn paratoi ac yn cyflwyno adroddiad bob blwyddyn i'r Cyngor ar berfformiad ac effeithiolrwydd y Pwyllgor.

Mae'r adroddiad drafft sydd ynghlwm yn ceisio nodi'r prif faterion y mae'r Pwyllgor wedi'u hystyried yn ystod Blwyddyn Ddinesig 2019/20 a'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor.

Mae'r adroddiad drafft yn egluro rôl y Pwyllgor, yr eitemau sefydlog y mae'n eu hystyried, a rhai o'r materion pwysig y mae wedi'u hystyried yn ystod y cyfnod hwn.

Gofynnir i'r aelodau ystyried a yw cynnwys yr adroddiad yn adlewyrchu gwaith y Pwyllgor a gwneud unrhyw awgrymiadau i wella arddull a chynnwys yr adroddiad.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae gwaith y Pwyllgor wrth graffu ar faterion ariannol, rheoli risg a llywodraethu corfforaethol y Cyngor yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni'r Blaenoriaethau Corfforaethol.

## 6. Beth fydd cost hyn a beth fydd ei effaith ar wasanaethau eraill?

Nid oes unrhyw oblygiadau cost ychwanegol o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Nad oes angen Asesiad Effaith Llesiant ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Craffu ac eraill?

Mae'r adroddiad hwn yn ceisio barn Aelodau ar gynnwys yr adroddiad Blynyddol. Nid oes angen ymgynghori arall.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r Pwyllgor yn rhan allweddol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor. Mae craffu effeithiol ar brosesau, systemau a thrafodion ariannol sylweddol yn elfen hanfodol o reolaeth fewnol ac mae'n darparu lefel o sicrwydd i'r Cyngor ehangach a rhanddeiliaid eraill.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau

Y risg o beidio â chael Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio effeithiol yw nad oes goruchwyliaeth o lywodraethu corfforaethol y Cyngor sy'n rhan allweddol o berfformiad da. Gall llywodraethu corfforaethol gwan gyfrannu at fethiannau wrth ddarparu gwasanaethau.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Adran 13 Cyfansoddiad y Cyngor